# Eitemau sydd wedi cael eu dwyn

21 Tachwedd 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

1. *Faint o eitemau sydd wedi cael eu dwyn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ers 1 Tachwedd 2010?*
2. *Beth yw gwerth cyffredinol, o ran cost, yr eitemau a gafodd eu dwyn ers 1 Tachwedd 2010?*
3. *A oes modd i chi roi rhestr o'r eitemau gwahanol sydd wedi cael eu dwyn o'r Cynulliad ers 1 Tachwedd 2010?*
4. *Beth oedd yr eitem rataf a gafodd ei dwyn ers 1 Tachwedd 2010, a beth oedd ei gwerth?*
5. *Beth oedd yr eitem ddrutaf a gafodd ei dwyn ers 1 Tachwedd 2010, a beth oedd ei gwerth?*

Gweler yr ymateb i bob un o'r pum cwestiwn yn y tabl isod. Yr eitem rataf a gafodd ei dwyn sydd wedi'i nodi'n gyntaf, a'r eitem ddrutaf yw'r un sydd wedi'i nodi'n olaf.

| Eitem | Eitem a gafodd ei dwyn | Gwerth (amcan) |
|---|---|---|
| 1 | Dwyn gwefrydd ffôn symudol | £9.99 |
| 2 | Dwyn o bwrs | £40 o arian parod |
| 3 | Dwyn beic | £80 |
| 4 | Dwyn gemwaith | £85 |
| 5 | Dwyn waled | £95 |
| 6 | Dwyn ffôn symudol | £200 |
| 7 | Dwyn beic | £300 |
| 8 | Dwyn beic | £450 |
| 9 | Dwyn beic | £700 |
| | **Cyfanswm** | **£1,960** |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**